

# Trefin tua'r tir

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



**GRADDFA:** 0 300 600 m

**PELLTER/HYD:** 5.2 milltir (8.4 km) 3 awr

**CLUDIANT CYHOEDDUS:** Bws gwasanaeth Trefin 413,  
\*Strumble Shuttle 404 (\*tymhorol, galw a teithio)

**CYMERIAD:** Graddfa hwylus i gymedrol, lonydd tawel, caeau a da byw, ardaloedd o dir corsiog mewn tywydd gwlyb, 1.6 milltir (2.5 km) o gerdded ar isffyrdd

**CHWILIWCH AM:** Golygfeydd o Ben-caer • morlin garw • pentref Trefin • hen olion y felin yn Aberfelin, sy'n enwog oherwydd cerdd Gymraeg (gwro ychydig oddi ar y llwybr)


**MWY O WYBODAETH:** 220 llath (200m) ar brif ffordd brysus. Defnyddiwch yr ymyl lle'n bosib

## COD CEFN GWLAD!

- Mwynhewch y cefn gwlad a pharchu ei fywyd a'i waith
- Gochelwch rhag unrhyw risg o dân
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Cadwch at y llwybrau cyhoeddus wrth goesi tir amaethyddol
- Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi

## ALLWEDD

- Llwybr Cylch
- Llwybr Arfordir Sir Benfro  
Llwybr Cenedlaethol
- - - Llwybrau Cyhoeddus
- P Parcio
- WC Toileadau Cyhoeddus
- Bus Safle Bws



# Trefin tua'r tir

## Hanner Dydd a Mwy

**Hyd:** 3 awr

**Pellter:** 5.2 milltir (8.4 km)

**Cludiant cyhoeddus:** Bws  
gwasanaeth Trefin 413, \*Strumble  
Shuttle 404 (\*tymhorol, galw a teithio).

**Cyfeirnod map:** SM841323

Ar y llwybr uwchlaw Trefin mae yna olygfeydd gwych o arfordir gogleddol caregog Sir Benfro. Crëwyd y dirwedd drawiadol gan ddigwyddiadau daearegol dramatig rhwng 500 a 440 miliwn o flynyddoedd yn ôl pan yr oedd llosgfynyddoedd yn weithgar yn yr ardal.

Fe oerodd y lafa i ffurfio craig igneaidd arbennig o galed ac, mewn rhai manau, ni chyrhaeddodd y graig dawdd yr arwyneb, gan oeri'n araf o dan y ddaear.

Dros filiynau o flynyddoedd, mae'r mewnwithiadau igneaidd hyn wedi gwrthsefyll erydiad yn well na'r haenau o'u cwmpas i ddod yn glegyr caregog i'r dwyrain ym Mhen-caer ac i'r gorllewin ym Mhenberi a Carn Llidi.

Mae Trefin yn bentref mawr sy'n agos at y môr ond sydd wedi ei osod yn ôl o'r môr. Mae ganddo gysylltiadau agos gyda'r môr, ac ychydig o daith ydyw o gilfachau Aberfelin ac Abercastell. Yn y gorffennol, roedd y pentref yn gartref i forwyr ac roedd ganddo enw hefyd fel canolfan smyglo.

Mae olion melin ddŵr a elwir yn Melin Trefin wedi eu gwarchod yn Aberfelin ac o'r felin y daeth enw'r cildraeth. Roedd y felin yn un o ddau yn yr ardal a oedd yn eiddo i esgobion Tyddewi, a oedd yn berchen ar lawer o'r tir o amgylch Trefin. Malwyd gwenith a barlys yn y felin am bum canrif hyd nes cau'r felin yn 1918.